Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Men’s Health Wales, Corneli, De Cymru
## Dyddiad yr arolygiad: 24 Tachwedd 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-80535-526-7
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod Men's Health Wales yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion ac ar ddiogelu eu hawliau yn ystod eu hymweliad â'r clinig.

Roedd adborth y cleifion ynglŷn â'u profiadau yn y clinig yn gadarnhaol iawn.

Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg iechyd a diogelwch bellach ar waith yn y clinig.

Roedd y cofnodion clinigol yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roeddent yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Cafodd trefniadau llywodraethu effeithiol eu disgrifio a'u dangos. Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y clinig yn gweithredu'n effeithiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Men's Health Wales ar 24 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion pan oeddent yn cael eu gweld yn y clinig. Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig.

Cafodd trefniadau addas ar gyfer cael cydsyniad dilys gan y cleifion cyn iddynt gael triniaeth eu disgrifio a'u dangos. Roedd gan y clinig broses addas ar waith i'r cleifion neu eu gofalwyr roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn i'r cleifion allu gofalu am eu hiechyd eu hunain
- Dangos y canlyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adborth a roddwyd yn y clinig.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd adborth y cleifion yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig
- Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

> *“Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn werthfawr iawn i mi. Gwnaeth fy meddyg teulu ragnodi cyffuriau gwrth-iselyddion i mi ar unwaith ar ôl i mi esbonio fy symptomau ond ni chynigiodd unrhyw help pellach er bod y prawf gwaed a gefais yn dangos bod fy lefelau testosteron yn sylweddol is na'r lefelau normal. Cymerodd y tîm yn Men's Health Wales amser i wrando arnaf, i roi cyngor ac i fy nhywys drwy'r broses therapi adfer testosteron (TRT) gyfan, ac o ganlyniad i'r driniaeth, mae'r holl symptomau wedi diflannu ac rwy'n teimlo'n ffantastig. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn haws i'w gael fel un o wasanaethau'r GIG. Ni allaf ddychmygu sut y byddwn wedi teimlo pe byddwn wedi dilyn awgrym fy meddyg teulu, ond mae'n debyg nad oes ganddynt lawer o ddiddordeb mewn rhoi cymorth i ddynion â'u hanghenion hormonaidd. Mae Men's Health Wales yn gwybod beth i'w wneud ac maent yn darparu gwasanaeth ardderchog a datrysiadau go iawn.”*
>
> *“Cefais ofal, cyngor, triniaeth ac ôl-ofal arbennig gan Men's Health Wales. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn fy mod wedi dod o hyd iddynt.”*
>
> *“Profiad proffesiynol iawn.”*
>
> *“Mae Dr David yn feddyg arbennig ac mae wedi newid fy mywyd yn llwyr.”*
>
> *“Proffesiynol iawn ym mhob agwedd.”*
>
> *“Mae'r gwasanaeth proffesiynol a phersonol a ddarperir gan y clinig yn gwneud argraff fawr arnaf bob tro. Mae'r clinig wedi chwarae rhan allweddol wrth ddarparu triniaeth sydd wedi creu newid cadarnhaol sylweddol.”*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yn amlwg fod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig dros y gofal a ddarperir yn y meysydd cofrestredig. Roedd ganddo enw da ym maes iechyd dynion.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân a bod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn, lle y bo'n briodol.

Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn amgylchedd y clinig, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Fodd bynnag, gellid gwella'r trefniadau diogelwch tân.

Roedd y clinig yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau clinigol priodol ar waith i gefnogi'r clinig, ac roeddent wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd y cofnodion clinigol yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Byddai'n fuddiol defnyddio templed ar gyfer y cofnodion a gedwir er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhoi i'r cleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhoi rhaglen archwiliadau clinigol ar waith
- Sicrhau y caiff y trefniadau diogelwch tân priodol eu cynnal mewn modd amserol.

Hysbysiad diffyg cydymffurfio:

- Nid oedd gan y clinig asesiad risg amgylcheddol nac asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer y lleoliad.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Sicrhau bod amgylchedd y clinig yn lân ac yn daclus
- Dogfennu cofnodion clinigol cywir.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

> *"Nid oes gen i unrhyw awgrym sut y gellid gwella'r clinig. Gan mai clinig gweddol fach ydyw, mae'n debyg fod popeth yn gweithio fel ag y dylai. Staff gwych sy'n wybodus a sylwgar a lleoliad glân a chyfforddus."*
>
> *"Mae'r tîm yn ffantastig. Pe byddai fy meddyg teulu yn gofalu amdanaf cystal, byddwn yn arbed arian."*
>
> *"Ni allaf feddwl am unrhyw ffordd y gellid gwella'r gwasanaeth oherwydd, yn fy marn i; mae Men's Health Wales yn rhagorol."*
>
> *"Rhoddodd y clinig yr help hwnnw na chefais gan fy meddyg teulu, felly rwy'n ddiolchgar iawn bod y clinig hwn yn bodoli"*
>
> *"Gall unrhyw un gael gafael ar y gofal iechyd cywir ond yr her yw p'un a allant fforddio talu am wasanaeth preifat ai peidio. Mae Men's Health Wales yn cynnig datrysiad gofal iechyd nad yw'n cael ei ddarparu'n gyffredinol gan y GIG i ddynion ond sy'n cael ei ddarparu'n eang i fenywod. Dyma achos amlwg o anghydraddoldeb. Mae'n rhaid i ddynion dalu am rywbeth y mae menywod yn ei gael am ddim, dim ond drwy ofyn amdano."*

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Y person cofrestredig oedd yr unig aelod o staff a'r unigolyn hwn oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig ac am weithredu'r clinig yn gyffredinol. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y clinig yn gweithredu'n effeithiol ac a oedd wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Roedd gweithdrefn addas ar gyfer cydnabod a rheoli cwynion ar waith a gwelsom fod trefniadau da ar waith i gofnodi a monitro digwyddiadau.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Cynnal cofnodion o'r hyfforddiant a gwblhawyd yn y lleoliad.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gweithdrefn gwyno wedi'i dogfennu'n dda.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

